Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

| | |
|---|---|
| Cyfarfod: | **Bwrdd Plismona** |
| Lleoliad: | **Ystafell Gynadledda SCHTh** |
| Dyddiad: | **23 Tachwedd 2016** |
| Amser: | **13:20 – 14:20** |

| | |
|---|---|
| **Aelodau:** | Mr Dafydd Llywelyn, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (CHTh)<br>Prif Gwnstabl Simon Prince QPM (PG)<br>Mrs Jayne Woods, Prif Swyddog Ariannol, SCHTh (PSA) |
| **Hefyd yn Bresennol:** | Dirprwy Brif Gwnstabl Dros Dro Liane James (DBG)<br>Mrs Carys Morgans, Pennaeth Staff, SCHTh (CM) [Rhan o'r cyfarfod]<br>Mrs Alison Perry, Cyfarwyddwr Comisiynu, SCHTh (ALP) [Rhan o'r cyfarfod]<br>Mrs Kerrie Phillips, Swyddog Ymgysylltu Cyhoeddus, SCHTh (KP) [Rhan o'r cyfarfod]<br>PC Jo Thompson, Swyddog Staff Cynorthwyol (JT)<br>Mrs Claire Bryant, Rheolwr Swyddfa, SCHTh (CB) |
| **Ymddiheuriadau:** | Mr Adrian Williams, Cyfarwyddwr Adnoddau (CA)<br>Arol. Mark McSweeney, Swyddog Staff (MMS) |

| CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 08/11/16 | | |
|---|---|---|
| **Rhif Cam Gweithredu** | **Crynodeb o'r cam gweithredu** | **Cynnydd** |
| **PB 2081** | **Rhoi diweddariad ar y polisi ar gyfer cynnal arolygon bodlonrwydd dioddefwyr gyda dioddefwyr cam-drin domestig mewn cyfarfod o'r Bwrdd Plismona yn y dyfodol (dyddiad i'w gytuno ar 23/11/16)** | **Ar waith – dychwelyd 03/01/17** |
| **PB 2082** | **Y PG i roi diweddariad i'r CHTh ynglŷn â'r data diweddaraf mewn perthynas ag ymosodiadau ar swyddogion heddlu** | **Ar waith – disgwylir 06/12/16** |
| **PB 2083** | **Y PG i nodi swyddog ar gyfer arwain y prosiect CA** | **Ar waith** |
| **PB 2084** | **Gwerthusiad o'r prosiect CA i'w gynnal drwy'r Bwrdd Ymchwil** | **Wedi'i drefnu** |
| **PB 2085** | **Y CHTh i dderbyn adroddiadau blaenorol mewn perthynas â rhwymedi cymunedol, gan gynnwys gwaith ar y ddewislen datrysiadau cymunedol oedolion** | **Ar waith** |
| **PB 2086** | **Yr Uwch-arolygydd Parmenter i weithio gydag ALP i hyrwyddo'r cynllun ymwybyddiaeth canabis ac alcohol ymysg timoedd bro** | **Ar waith** |

| PENDERFYNIADAU'N CODI O GYFARFOD 23/11/16 | | |
|---|---|---|
| **Rhif Cam Gweithredu** | **Crynodeb o'r Penderfyniad** | **I'w symud yn ei flaen gan** |
| **PB T2 15** | **Cytunodd y CHTh i'r argymhelliad y dylai'r Swyddfa Gwasanaeth Cyhoeddus gael ei mireinio a'i hailffurfio am gyfnod o 12 mis, gyda'r nod o drosglwyddo'r gwasanaeth i reolaeth y PG ar ôl 12 mis, pan fydd y CHTh yn dod yn gorff apelio ar gyfer datblygu cwynion** | **KP** |
| **PB T2 16** | **Cynyddu staff y Swyddfa Gwasanaeth Cyhoeddus i 4 cyfwerth ag amser llawn** | **CM** |

Cytunodd y CHTh y dylid ad-drefnu'r agenda er mwyn ystyried y diweddariadau cyn prif gorff y cyfarfod i ganiatáu i ALP a KP gyflwyno eu mewnbwn.

**Diweddariadau**

***Adolygiad o'r Swyddfa Gwasanaeth Cyhoeddus***

Cyflwynodd KP yr adroddiad a oedd yn rhoi manylion ynghylch sut y cynhelir adfer gwasanaeth ar gyfer HDP ac argymhellion ar gyfer y gwasanaethau a ddarperir yn y dyfodol, yn unol â'r newidiadau arfaethedig i'r Bil Heddlu a Throseddu. Ar hyn o bryd, mae tair haen i drin cwynion yn HDP. Cam 1 yw adfer gwasanaeth pryderon lefel is drwy'r Swyddfa Gwasanaeth Cyhoeddus (SGC), cam 2 yw cwynion ffurfiol yn erbyn swyddogion heddlu, sy'n cael eu trin gan yr Adran Safonau Proffesiynol, a cham 3 yw apeliadau i'r PG neu Gomisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu. Cynhwyswyd perfformiad cyfredol yn yr adroddiad, gyda KP yn nodi bod adolygiad blwyddyn y SGC yn dangos bod amseroldeb trin cwynion wedi gwella, ond roedd bodlonrwydd cyhoeddus wedi gostwng. Cynhaliwyd meincnodi allanol ac adborth mewnol er mwyn llunio pedwar dewis i'w trafod o ran dyfodol y SGC, lle'r oedd cwynion yn cael eu trin yn arbennig o gyflym.

Cyflwynwyd nifer o ddewisiadau ar gyfer cyflwyno gwasanaethau yn y dyfodol. Un dewis oedd parhau â'r sefyllfa bresennol, yr ail oedd buddsoddi mewn mwy o allu ac alinio i fodel B a argymhellwyd gan y Bil Heddlu a Throseddu, tri, ailffurfio ac adleoli'r gwasanaeth i alinio i fodel A (yr unig fodel gorfodol o fewn y Bil), a dewis pedwar oedd allanoli'r gwasanaeth. Argymhellodd KP y dylid dilyn dewis 2 i gychwyn, gyda'r nod o alinio i ddewis 3 o fewn y 12-18 mis nesaf yn unol â'r newidiadau mewn deddfwriaeth.

Diolchodd y CHTh i KP am yr adroddiad cynhwysfawr, gan gytuno mai symud tuag at ddewis tri oedd y datrysiad mwyaf priodol, gyda'r CHTh yn gorff apêl yn unig yn hytrach na bod yn rhan o gwynion o'r cychwyn cyntaf. Byddai hyn yn caniatáu i'r CHTh aros yn

gwbl annibynnol. Nodwyd y byddai angen i gyflwyno dewis dau yn y cyfamser ganolbwyntio ar fireinio prosesau cyfredol er mwyn paratoi'r gwasanaeth ar gyfer ei drosglwyddo i reolaeth y PG. Nododd KP nad oedd perfformiad y SGC lle y bu'n flaenorol ar hyn o bryd oherwydd amrywiadau mewn lefelau staff. Cytunodd y DBG bod yr adroddiad yn ddefnyddiol ac roedd hi'n awyddus i egluro rolau SCHTh a'r Heddlu, gyda SCHTh yn monitro perfformiad a'r Heddlu'n gyfrifol am ddatrysiadau lleol. Nododd y DBG bod y cynigion hefyd yn ymwneud â thrin cwynion. Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â diogelu'r gwasanaeth yn y dyfodol, ac awgrymwyd y dylai Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu fod yn rhan o'r trafodaethau hyn. Atgyfnerthodd CM y neges yn yr adroddiad bod angen mireinio gweithrediadau'r Swyddfa er mwyn cyflwyno lefel gwasanaeth o safon uchel i gwsmeriaid. Ychwanegodd KP bod angen ystyried sicrhau gwasanaeth Cymraeg hefyd. Cytunwyd y dylid archwilio i gyfleoedd ar gyfer cydweithio gyda Heddluoedd eraill mewn perthynas â chraffu ar gwynion a monitro perfformiad. Dywedodd CM bod tri aelod staff cyfwerth ag amser llawn yn gweithio yn y SGC ar hyn o bryd, ac maen nhw'n cael eu hariannu gan SCHTh a'r PG. Awgrymwyd y dylid cynyddu hyn i 4 aelod staff amser llawn er mwyn lleihau baich achosion swyddogion fel bod modd canolbwyntio ar wella gwasanaeth. Roedd y CHTh yn awyddus i sicrhau bod y gwasanaeth yn gweithredu'n dda adeg trosglwyddo i'r PG. Ychwanegodd ALP y byddai angen ystyried y gwasanaeth arolwg bodlonrwydd defnyddwyr a ddarperir gan yr Heddlu ochr yn ochr â'r datblygiadau SGC.

Cytunwyd y byddai'r 4 swydd yn y SGC yn cael eu hysbysebu mor fuan â phosibl. Gofynnodd CM am i gytundebau'r 3 aelod staff sydd wedi'u secondio o'r Heddlu gael eu hestyn tan ddiwedd Chwefror 2017 ar gyfer y cyfnod recriwtio. Cytunodd y DBG y gallai CM drafod y mater â rheolwyr llinell yr aelodau staff hyn.

**Cam gweithredu: Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu i fod yn rhan o drefniadau trin cwynion yn y dyfodol**

**Cam gweithredu: Archwilio i gyfleoedd ar gyfer cydweithio â Heddluoedd eraill mewn perthynas â chraffu ar gwynion a monitro perfformiad**

**Penderfyniad: Cytunodd y CHTh i'r argymhelliad y dylai'r Swyddfa Gwasanaeth Cyhoeddus gael ei mireinio a'i hailffurfio am gyfnod o 12 mis, gyda'r nod o drosglwyddo'r gwasanaeth i reolaeth y PG ar ôl 12 mis, pan fydd y CHTh yn dod yn gorff apelio ar gyfer datblygu cwynion**

**Penderfyniad: Cynyddu staff y Swyddfa Gwasanaeth Cyhoeddus i 4 cyfwerth ag amser llawn**

**Cam gweithredu: CM i gysylltu â rheolwyr llinell parhaol staff y SGC sydd ar secondiad er mwyn gofyn am i'r secondiadau gael eu hestyn tan ddiwedd Chwefror 2017**

Gadawodd KP y cyfarfod.

*Gwerthusiad llawn o Ysgogi Ein Hieuenctid*

Cyflwynodd ALP yr adroddiad a oedd wedi'i baratoi gan y Rheolwr Rhaglen Ysgolion Rhanbarthol. Nododd y CHTh ei siom o ran y nifer cymharol isel o bobl ifainc a oedd yn cymryd rhan yn y rhaglen. Cafwyd trafodaeth ynghylch y posibilrwydd o estyn y rhaglen i'w chyflwyno drwy gydol y flwyddyn. Nododd ALP bod angen gwaith er mwyn deall y galw am y gwasanaeth drwy ystyried nifer y troseddwyr ifainc a'r lefel perygl ar draws y pedair sir, yn ogystal â'r hyn sy'n cael ei gyflwyno ar hyn o bryd yn erbyn y galw hwnnw. Roedd angen dod i gytundeb o ran pa fath o unigolion fyddai' n gysylltiedig â'r rhaglen o ran eu lefel perygl. Nododd y CHTh ei ddiolch i awdur yr adroddiad am ei gwaith ar yr adolygiad. Cytunwyd y byddai'r Rheolwr Rhaglen Ysgolion Rhanbarthol, CHTh, ALP a Rheolwyr y Tîm Troseddwyr Ifainc yn bwrw ymlaen â datblygu'r rhaglen.

**Cam Gweithredu: Y Rheolwr Rhaglen Ysgolion Rhanbarthol, CHTh, ALP a Rheolwyr y Tîm Troseddwyr Ifainc i fwrw ymlaen â datblygu'r rhaglen Ysgogi Ein Hieuenctid**

Gadawodd y CHTh, PG ac ALP y cyfarfod.

*Rhaglen Galluoedd Arbenigol*

Dywedodd y DBG bod y PGC yn ffurfio ymateb ar hyn o bryd i'r llythyr gan Gyngor Prif Swyddogion yr Heddlu (CPSH) a oedd yn ceisio sefyllfa o fwriad HDP mewn perthynas â'r rhaglen galluoedd arbenigol. Cytunwyd y byddai cynnydd yr ymateb yn cael ei egluro a'i rannu â SCHTh ar gyfer ystyriaeth er mwyn cyflwyno ymateb ar y cyd.

**Cam Gweithredu: Yr Heddlu i rannu ei ymateb drafft i lythyr CPSH mewn perthynas â'r rhaglen galluoedd arbenigol â SCHTh ar gyfer ystyriaeth er mwyn cyflwyno ymateb ar y cyd**

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Tachwedd a materion yn codi**

Cytunwyd bod y cofnodion yn gofnod gwir a chywir o'r cyfarfod.

**Diweddariad y Prif Gwnstabl**

Rhoddwyd diweddariad gweithredol i'r CHTh, a oedd yn cynnwys adroddiadau am ddau ymosodiad ar wahân yn erbyn swyddogion heddlu yn Sir Gaerfyrddin, diweddariad ynghylch ymchwiliad sy'n ymwneud â chamfanteisio'n rhywiol ar blant, a gweithgareddau'n ymwneud ag wythnos diogelu plant. Cydnabuwyd bod swyddogion yn nalfa Hwlffordd wedi gweithredu'n gyflym ac effeithiol pan aeth carcharor yn eu gofal yn

sâl. Yr oedd disgwyl i lythyrau cydnabyddiaeth gael eu hanfon at bawb a oedd yn gysylltiedig â'r digwyddiad.

**Diweddariad Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu**

Rhoddodd CM drosolwg o weithgareddau diweddar CHTh. Cynhaliwyd telegynhadledd gyda ChHTh De Cymru, Alun Michael, er mwyn trafod cyfleoedd ar gyfer cydweithio. Bydd Mr Michael ac aelodau o'i dîm yn ymweld â HDP ym mis Ionawr 2017 er mwyn symud y mater ymlaen. Roedd gwaith mewn perthynas â'r fformiwla ariannu'n parhau. Roedd y CHTh wedi cynnal digwyddiad 'Facebook Live' y noson flaenorol. Yn ystod y digwyddiad, atebodd gwestiynau gan y cyhoedd mewn perthynas â'r praesept. Derbyniwyd adborth cadarnhaol, a bwriedir ailadrodd y digwyddiad yn rheolaidd.

Dywedodd y PSA ei bod hi ar ddeall bod y CHTh eisiau ailymweld â'r mater o berfformiad trwyddedu arfau saethu. Roedd y PSA yn teimlo ei bod hi'n werth ystyried y cwynion agored cyfredol sy'n cael eu trin gan y SGC y tro nesaf.

**Cam Gweithredu: Trafod cwynion ynghylch trwyddedu arfau saethu yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Plismona**

**Diweddariad y prif Swyddog Ariannol**

Rhoddodd y PSA drosolwg o'r cynnydd ar lobio mewn perthynas â'r ariannu fformiwla. Roedd y PSA a'r CHTh wedi cwrdd â'r Gweinidog Plismona, Brandon Lewis, a chafwyd cyfarfod yn dilyn hynny gyda chymheiriaid y PSA. Ystyriwyd bod adborth gan heddluoedd yn cael ei hidlo gan y Swyddfa Gartref cyn y cyfarfodydd grŵp technegol, a oedd yn codi pryder ynghylch tryloywder y grŵp. Nid yw agendâu na chofnodion yn cael eu cyhoeddi, ac nid ydynt ar gael i heddluoedd. Gwahoddwyd cynrychiolydd o'r grŵp technegol i HDP i drafod setliad teg ar gyfer HDP.

Byddai'r PSA yn ystyried Datganiad yr Hydref sy'n cael ei gyhoeddi'n ddiweddarach heddiw.

Gan mai hwn oedd cyfarfod Bwrdd Plismona olaf y PG, mynegodd CM ddiolch y CHTh am ei ymroddiad a'i waith fel Prif Gwnstabl dros y tair blynedd diwethaf, a dymunodd yn dda iddo yn ei ymddeoliad.

| **CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 23/11/16** | | |
|---|---|---|
| **Rhif Cam Gweithredu** | **Crynodeb o'r cam gweithredu** | **I'w symud yn ei flaen gan** |
| **PB 2087** | **Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu i fod yn** | **KP** |

| | | |
|---|---|---|
| | **rhan o drefniadau trin cwynion yn y dyfodol** | |
| **PB 2088** | **Archwilio i gyfleoedd ar gyfer cydweithio â Heddluoedd eraill mewn perthynas â chraffu ar gwynion a monitro perfformiad** | **KP** |
| **PB 2089** | **CM i gysylltu â rheolwyr llinell parhaol staff y SGC sydd ar secondiad er mwyn gofyn am i'r secondiadau gael eu hestyn tan ddiwedd Chwefror 2017** | **CM** |
| **PB 2090** | **Y Rheolwr Rhaglen Ysgolion Rhanbarthol, CHTh, ALP a Rheolwyr y Tîm Troseddwyr Ifainc i fwrw ymlaen â datblygu'r rhaglen Ysgogi Ein Hieuenctid** | **ALP** |
| **PB 2091** | **Yr Heddlu i rannu ei ymateb drafft i lythyr CPSH mewn perthynas â'r rhaglen galluoedd arbenigol â SCHTh ar gyfer ystyriaeth er mwyn cyflwyno ymateb ar y cyd** | **DBG** |
| **PB 2092** | **Trafod cwynion ynghylch trwyddedu arfau saethu yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Plismona** | **PSA** |